



Student Academic Reps
Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

LLAWLYFR CYNRYCHIOLWYR ACADEMAIDD 16/17

COLEG Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL
A GWYDDORAU BYWYD



Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

CARDIFF
UNIVERSITY
PRIFYSGOL
CAERDYDD

CYNNWYS

2. Eich rôl fel Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr
3. Y Flwyddyn i Ddod: Dyddiadau Pwysig
4. Neges gan IL Addysg ac IL Parc y Mynydd Bychan
5. Eich Tîm Llais Myfyrwyr
6. Neges gan Yr Athro Dylan Jones
7. Neges gan Yr Athro Paul Dummer
8. Nodau Cynrychiolwyr
9. Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr (ESLAs)
10. Sut mae'r strwythur adborth yn gweithio?
11. Wythnos Siarad
12. Esbonio Paneli Staff Myfyrwyr
13. Rôl Cadeirydd a Ysgrifennydd y Panel Staff Myfyrwyr
14. Bwrdd Astudiaethau/Esbonio Fforymau Coleg
15. Hyfforddiant/Cymerwch ran, ymunwch â phwll y Cynrychiolwyr!
16. Mae bod yn Gynrychiolydd yn gwella eich CV!
17. Siarter y Myfyrwyr
18. Cyngor i Fyfyrwyr
19. Amgylchiadau Esgusodol
20. Beth i gadw golwg arno/Cefnogaeth Myfyriwr
21. Strwythur Coleg Prifysgol Caerdydd
22. Geirfa ac Acronymau

YR ATHRO AMANDA COFFEY

Mae Prifysgol Caerdydd yn falch iawn o'r bartneriaeth gref sydd ganddo â chorff y myfyrwyr. Mae gennym draddodiad hir o gynrychiolaeth myfyrwyr yn y Brifysgol, fel un o'r ffyrdd rydym yn gweithio gyda a dros myfyrwyr. Mae'r system Cynrychiolaeth Academaidd yn golygu fod myfyrwyr o bob rhaglen ym mhob ysgol yn cael dweud eu dweud ar eu haddysg a phrofiad ehangach y myfyriwr a sut gall ei wella.

Mae Cydlynwyr Cynrychiolaeth Academaidd â rôl allweddol yn sicrhau fod y system cynrychiolwyr myfyrwyr yn fecanwaith effeithiol o astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Cydlynwyr hefyd yn gwneud yn siŵr fod y system

Gynrychiolwyr yn cael ei diwnio ar gyfer bob Ysgol ac ar draws pob rhaglen. Diolch i chi am gymryd rôl mor bwysig.



YR ATHRO AMANDA COFFEY

Dirprwy Is-ganghellor Profiad Myfyrwyr
a Safonau Academaidd

EICH RÔL FEL CYNRYCHIOLWYR ACADEMAIDD MYFYRWYR

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y caiff llais y myfyrwyr ei glywed a'i ystyried o ddifri ar bob lefel. Mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr yn chwarae rhan hanfodol yn hyn o beth drwy fynd i gyfarfodydd Paneli Myfyrwyr-Staff mewn Ysgolion a gweithredu fel cyswllt rhwng aelodau o staff a'u cyd-fyfyrwyr. Eu swyddogaeth nhw yw dweud wrth yr Ysgol a'r Brifysgol beth maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi ynglŷn â Phrifysgol Caerdydd. Heb eich adborth, ni allwn newid pethau.

Mae disgwyl i chi:

- Rhoi gwybod i'r myfyrwyr rydych chi'n eu cynrychioli pwy ydych chi a'ch bod chi ar gael ar eu cyfer.
- Casglu barn ystod eang o fyfyrwyr.
- Bod yn bwynt cyswllt i fyfyrwyr ar faterion ynghylch eich cwrs a chyfleusterau.
- Cyfeirio myfyrwyr at wybodaeth am wasanaethau a gynigir ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Rhoi adborth i fyfyrwyr ynglŷn a'r gwahaniaeth rydych chi wedi'i wneud a'r gwelliannau yn eich ysgol.

Gweithio gyda'ch ysgol

Mae gan bob Ysgol aelodau staff penodedig sy'n gweithredu fel Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM). Eich CCMau fydd eich pwynt cyswllt cyntaf ar

gyfer yr holl Gynrychiolwyr yn eich ysgol. Byddant yn fodlon eich helpu gydag unrhyw ymholiad neu broblem sydd gennych chi yn eich rol. Gallant drefnu:

- Hysbysfwrdd penodedig yn hyrwyddo eich rol
- Danfon e-byst ar eich rhan
- Trenfu cyfarfodydd gyda staff Ysgol allweddol
- Darparu cyngor ar brosiectau a syniadau sydd gennych
- Pryd fydd Paneli Staff Myfyrwyr yn digwydd



Y FLWYDDYN I DDOD: DYDDIADAU PWYSIG

CYFNOD ETHOLIADAU 1:

10fed – 21ain Hydref 2016

Byddwn yn annog eich Ysgol i gynnal etholiadau i sicrhau fod eich ffrindiau cwrw yn cael dweud eu dweud ar bwy sy'n eu cynrychioli. Nid yw bob ysgol yn cynnal etholiad.

CYFNOD HYFFORDDIANT 1:

17eg Hydref – 4ydd Tachwedd 2016

HYFFORDDIANT CADEIRYDD AC YSGRIFENNYDD PANEL STAFF MYFYRWYR:

Hydref 19eg a Tachwedd 2il 2016

WYTHNOS SIARAD:

Chwefror 6ed – 10fed 2017

Ymgrych blynyddol Undeb y Myfyrwyr yw Wythnos Siarad i gasglu adborth gan fyfyrwyr. Blwyddyn diwethaf, cwblhawyd dros 2,200 o gardiau Wythnos Siarad. Mae hyn yn gyfle perffaith i chi ymgysylltu â'ch cyd-fyfyrwyr, os hoffech wirfoddoli e-bostiwrch:

studentreps@Caerdydd.ac.uk

CYFNOD ETHOLIADAU 2:

Mawrth 6ed – 24ain 2017

CYFNOD HYFFORDDIANT 2:

Mawrth 27ain - Ebrill 7fed 2017

FFORWM COLEG AR GYFER (ELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL:

Tachwedd 30ain – 16:00 - 17:30

Ionawr 25ain – 15.30-17.00

Mawrth 22ain – 13.00-15.00

FFORWM COLEG AR GYFER GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD:

Tachwedd 30ain – 13:00 - 15:00

Chwefror 1af – 13.00 - 15.00

Mawrth 29ain – 13.00 - 15.00

FFORWM COLEG AR GYFER GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG:

Rhagfyr 1af – 13.00-15.00

Chwefror 1af – 15.30-17.00

Mawrth 22ain – 15.30-17.00



IS-LYWYDD ADDYSG

Yn gyntaf oll, hoffwn eich llongyfarch am ddod yn Gynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr!

Fy amser fel cynrychiolydd yw'r rheswm dwi'n gwneud be' dwi'n gwneud nawr. Graddiais gyda BSc Cemeg yn 2016 ac yn ystod fy amser fel myfyriwr roeddwn yn gynrychiolydd myfyriwr, cyflwynydd radio, capten pêl-droed a mwy, ceisiais gymryd rhan i helpu myfyrwyr pryd bynnag a lle bynnag y bo'n bosibl, a fe wnes i ddarganfod fy mod yn gallu gwneud llawer! Mae bod yn gynrychiolydd academiaidd yn brofiad gwerthfawr iawn.

Rydych yn rhan o rhwydwaith enfawr o fyfyrwyr sydd i gyd â'r un nod a chi – gwella profiad y myfyrwyr – byddwch i gyd yn gwneud hyn mewn ffordd gwahanol gan fod gennych y rhyddid i weithio gyda'ch cyd-fyfyrwyr yn y ffordd sy'n gweddu nhw orau. Bydd y tîm Llais Myfyrwyr yno i'ch cefnogi.

Dwi wedi cynnwys rhai o'n prif flaenoriaethau:

- Rhoi mewnbwn uniongyrchol i'r prosiectau amrywiol a arweinir gan y Brifysgol i wella'r profiad dysgu.
- Helpu'r brifysgol i gyrraedd ei darged o 80% yng nghanlyniadau asesiadau ac adborth yn yr NSS.
- Sicrhau bod darlithwyr yn cael eu hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r LearnPlus, darparu profiad ymgysylltu yn barhaus.

Os rydych yn gweld unrhyw beth yr hoffech chi i gymryd rhan ynddo, rhowch wybod i mi.

Nawr am fy narn mwyaf o gyngor...

Paidiwch â bod ofn bod yn arloesgar, mae eich adborth yn werthfawr, mae'r data o'r cyfarfodydd paneli staff myfyrwyr o hyd yn cael eu defnyddio mewn pwyllgorau. Felly, byddwch yno ar gyfer eich cyd-fyfyrwyr, gwrandewch iddynt a chofiwch eich bod yn dal i fod yn fyfyrwyr, cofiwch gael hwyl â'r profiad!

Mo

IL PARC Y MYNYDD BYCHAN

Mae rôl IL Parc y Mynydd Bychan yn cynrychioli myfyrwyr sy'n seiliedig ar Campws Parc y Mynydd Bychan, a'r rheini sy'n defnyddio adnoddau yn seiliedig ar iechyd. Dwi'n cynrychioli holl faterion o addysg a lles i chwaraeon a chymdeithasau a llawer mwy. Dwi'n gweithio gyda swyddogion sabothol eraill i wneud yn siŵr y byddwch yn cael eich cynrychioli ac i wella eich amser yn y Brifysgol waeth beth bynnag yw'r mater.

Mae bod ar gampws gwahanol, ac fel arfer i ffordd ar leoliadau gwaith, yn golygu fod cynrychiolaeth a llais y myfyrwyr hyd yn oed yn fwy pwysig. Gall corff myfyrwyr sydd â llais arwain at well profiadau myfyrwyr yn y Mynydd Bychan. Mae'n anhygoel yr hyn y gallwn ei gyflawni fel grŵp myfyrwyr ac ni allaf aros i glywed yr holl syniadau a ddaw allan o'r system cynrychiolydd.

Fy mhrif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yw:

- Gwella darpariaeth cymorth iechyd meddwl ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd. Bydd hyn yn cynnwys llobio ar gyfer gwelliannau i Tŷ Aberteifi.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo cysylltiad â Phrifysgol Caerdydd pan fyddant i ffordd ar leoliad gwaith. Byddaf hefyd yn sicrhau fod gan ysgolion mwy o eglurder ynghylch costau lleoliad gwaith ac ad-dalu.
- Helpu cymdeithasau a chlybiau i gymryd mwy o ran gyda myfyrwyr y Mynydd Bychan. Yn y brifysgol dylech fod yn gallu cymryd rhan yn beth sydd o ddiddordeb i chi yn y brifysgol ac mae hyn yn allweddol ar gyfer lles myfyrwyr a phrofiad yn gyffredinol.

Rydych yn gwneud rhywbeth gwych, ar gyfer eich hunan-ddatblygiad a'ch cyd-fyfyrwyr. Os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i helpu cysylltwch â fi a byddaf yn eich cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallaf. Gobeithio y gewch chi flwyddyn da, dwi'n edrych ymlaen i gyfarfod gymaint ohonoch â phosibl dros y misoedd nesaf.

Niko

EICH TÎM LLAIS MYFYRWYR

Llongyfarchiadau ar fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr!

Rydym yma i gynnig cyngor i chi fel y gallwch ymgysylltu a chynrychioli'r myfyrwyr ar eich cwrs. Mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn ymdrin ag ystod eang o feysydd, o Gynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr i etholiadau'r Undeb, o ymgyrchoedd i waith polisi. Rydym yn cynllunio ac yn cyflwyno eich hyfforddiant, fel eich bod yn y sefyllfa orau i gyflawni eich rôl. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth a'n cyd-weithwyr yn y Brifysgol i gynnal y system ansawdd academaidd, ac rydym yn hyrwyddo ymgysylltiad myfyrwyr ar bob lefel o lunio penderfyniadau yn y Brifysgol.

Gydol y flwyddyn, byddwch yn derbyn e-byst a chyfathrebiadau oddi wrthym ni, yn eich hysbysu o ddigwyddiadau a chyfleoedd allweddol yn y Brifysgol. Rydym yn cynnal Wythnos Siarad - llynedd derbyniwyd dros 2,200 o ymatebion gan fyfyrwyr yn awgrymu ffyrdd o wella'r Brifysgol! Rydym yn trefnu Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr, lle rydym yn cydnabod gwaith caled myfyrwyr a staff sy'n helpu i wella profiad myfyrwyr.

Gallwch ddod i ymweld a ni ar drydydd llawr Undeb y Myfyrwyr ym Mharc y Plas neu gysylltwch â ni:



029 2078 1423 / 434



StudentReps@Caerdydd.ac.uk



SOPHIA



TOM

YR ATHRO DYLAN JONES

Bydd llais myfyrwyr yn ganolog i ddatblygiad y Brifysgol gyfan, yn enwedig gan ei bod yn gysylltiedig ag agenda "Ffordd Ymlaen" yr Is-ganghellor. Rydyn ni'n cydnabod bod gan y Coleg nodweddion penodol sy'n codi'n rhannol oherwydd y ddau safle ar wahân (Cathays a Pharc y Mynydd Bychan) ac oherwydd gofynnion arbennig sydd ar fyfyrwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant gofal iechyd.


Mae materion fel trafnidiaeth, mynediad i gyfleusterau astudio, trefniadau lleoliad, yn ogystal â chymorth di-academaidd ac ymgysylltiad yn enwedig yn berthnasol i safle Parc y Mynydd Bychan. Ar yr un pryd, rhaid i'r integreiddiad i Brifysgol Caerdydd fel un – a chwmpas eang iawn ei chyfleusterau – gael eu cydbwysu ag anghenion penodol yr ystod eang o Ysgolion o fewn y Coleg.

Bydd myfyrwyr yn ymgysylltu mewn penderfyniadau ynglŷn â gweithrediad y Coleg a byddant yn helpu ffurfio cynlluniau uchelgeisiol y Coleg ar gyfer datblygiad academiaidd ac ystadau. Nod y Coleg yw darparu'r addysg orau oll mewn amgylchedd sy'n caniatáu myfyrwyr i ddatblygu ac ymdrechu fel pobl. Rydym yn bwriadu ffurfio partneriaeth trwy ddeialog rheolaidd er mwyn cyrraedd yr amcanion hyn.



YR ATHRO DYLAN JONES

Dirprwy Is-ganghellor Coleg Gwyddorau
Biofeddygol a Gwyddorau Biofeddygol



YR ATHRO PAUL DUMMER

Llongyfarchiadau ar ddod yn Gynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr!

Mae gan Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd hanes o weithio'n agos gyda Chynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr o fewn Ysgolion yn ogystal â gyda'r SUON, Yn wir, mae "Llais y Myfyrwyr" yn ganolog i'r gwaith a wnawn i sicrhau ansawdd ein darpariaeth addysgol a chyflwyno gwelliannau. Mewn gwirionedd, mae adborth gan Gynrychiolwyr Myfyrwyr ar lefel israddedig ac ar lefel ôl-raddedig wedi caniatáu inni wneud nifer o welliannau dros y blynyddoedd. Mewn geiriau eraill, mae'ch barn yn cael eu clywed ac wir yn gwneud gwahaniaeth!

Byddaf yn gweithio gyda chi yn y Coleg i sicrhau bod gennym llinellau cyfathrebu clir ac effeithiol sy'n cyd-fynd â gwaith Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ac yn ein galluogi i greu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar profiad y myfyrwyr. Mae'r Coleg ar y ddau safle a gydag amrywiaeth o Ysgolion; fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod ein bod ni mewn un Coleg gyda set gyffredin o werthoedd.

Yn y blynyddoedd nesaf mae gennym gyfle i wella ein gweithdrefnau asesu ac adborth, ein ffodd o gyflwyno addysgu a'n eiddo. Cofiwch - gall eich mewnbwn ychwanegu gwerth at ein gwaith a gwneud yn siŵr bydd y fenter hyn yn cyfoethogi profiad y myfyrwyr.

Pob lwc!



YR ATHRO PAUL DUMMER

Deon Addysg a Myfyrwyr, Gwyddorau
Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd



NODAU CYNRYCHIOLWYR

Mae'r system nodau cynrychiolwyr wedi cael ei greu i danlinellu eich prif gyfrifoldebau a chadw cofnod o'ch cynnydd drwy gydol y flwyddyn. I dderbyn tystysgrif Cynrychiolydd Academaidd Myfyriwr a chael chydabyddiaeth am eich ymdrechion fel Cynrychiolydd, mae'n rhaid i chi brofi eich bod wedi llwyddo y pethau sydd wedi'u nodi ar y dudalen Nodau Cynrychiolwyr.

Mae yna bum prif ardal yn y Nodau Cynrychiolwyr:

PARATOI AR GYFER Y RÔL

mae hyn yn cynnwys hyfforddiant, darllen y llyfryn, mynychu sesiwn datblygu sgiliau, dod i adnabod y dashfwrdd NSS. Siarter y Myfyriwr a ffigyrau Croeso i Gaerdydd, yn ogystal â chyfarfod eich Cydlynnydd Cynrychiolydd Academaidd.

DYLETSWYDDAU'R RÔL

Mynychu lleiafrif o 2 Banel Staff Myfyrwyr, mynychu Fforwm Coleg (os rydych yn Gadeirydd), mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yr Undeb, mynychu Senedd y Myfyrwyr, cael cyfarfod gyda Llais y Myfyrwyr, paratoi'r agenda ar gyfer eich Panel Staff Myfyrwyr (Cadeirydd ac Ysgrifennydd yn unig), cwblhau cofnodion eich holl Paneli Staff Myfyrwyr mewn amser rhesymol.

YMGYSYLLTIAD

Mynychu Cynhadledd Cynrychiolwyr (yn ystod Wythnos Siarad), gwirfoddoli yn Wythnos Siarad, Cofrestru ar gyfer Pwyllgor Gweithredol Addysg, cymryd rhan yn yr Adolygiad Cyfnodol, neu Adolygiad a Mwyhad Blynnyddol, rhedeg prosiect ysgol.

CYFATHREBU

cyfathrebu eich presenoldeb ar eich cwrs, creu grŵp Facebook, mynd i siarad mewn darlithoedd, profi cau'r ddolen adborth, cyfathrebu gyda'ch cymdeithas cwrs, e-bostio Llais Myfyrwyr.

ADLEWYR(HU)/ADBORTH

Cwblhau Holiadur Cynrychiolydd Myfyrwyr, ysgrifennu adroddiad adlewyrchol ar sut mae'r flwyddyn wedi mynd, Enwebu rhywun arall am ESLA, cael eich enwebu ar gyfer ESLA.



GWOBRAU (YFOETHOGI BYWYD MYFYRWYR (ESLAS))

Am lawer o flynyddoedd mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi trefnu'r Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr. Cafwyd y gwobrau eu creu i gydnabod gwaith caled y myfyrwyr a'r staff i wella profiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae categorïau'n amrywio o Tiwtor Personol y Flwyddyn, i Gynrychiolydd Academaidd y Flwyddyn gyda'r seremoni wobrwyo yn digwydd ddiwedd Ebrill/dechrau Mai.

Mae bob aelod o staff sy'n cael eu enwebu ar gyfer gwobr yn derbyn mwg a bag tê am ddim. Dyma ffordd Undeb y Myfyrwyr i gydnabod gwaith caled ac ymrwymiad aelodau staff i'w rôl – yn dangos fod myfyrwyr wir yn gwerthfawrogi eu cyfraniad.

Mae'r Gwobrau wedi'u gwahanu i dri cam:

1. Ymgyrch hyrwyddo ESLA ac enwebiadau
2. Rhestr fer a gwahoddiadau
3. Noson Wobrwyo

Eleni fe fydd tîm Llais Myfyrwyr yn gwneud ymdrech bellach i hyrwyddo'r gwobrau yn well, cynyddu cyfnod yr enwebiadau dros nifer o fisoedd a hyrwyddo'r enwebiadau ar draws y Brifysgol. Fe fyddwn angen eich help i hyrwyddo'r ESLAs i'ch ffrindiau cwrs – dyma eich cyfle i gydnabod y myfyrwyr a'r staff sy'n mynd y tu hwnt i'r angen yn eu gwaith.



SUT MAE'R STRWYTHUR ADBORTH YN GWEITHIO?



MYFYRWYR



CYNRHYCHIOLWYR ACADEMAIDD



YSGOL



UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL (AERDYDD



(OLEG



PRIFYSGOL



WYTHNOS SIARAD

Ymgyrch blynyddol Undeb y Myfyrwyr yw Wythnos Siarad i gasglu adborth gan fyfyrwyr. Pwrpas yr ymgyrch yw i gasglu adborth gan fyfyrwyr a'i ddefnyddio i wella profiad y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r adborth yn cael ei lenwi gyda myfyrwyr yn llenwi cardiau Wythnos Siarad, sy'n gofyn iddynt nodi eu cwrs, y flwyddyn astudio.

Yn 2014 llenwyd dros 300 o gardiau Wythnos Siarad ar draws y Brifysgol. Yn 2015 cynyddodd y ffigwr 800 ac yn 2016 llenwyd dros 2,200. Ni fyddai hyn wedi gallu digwydd heb waith caled gwirfoddolwyr myfyrwyr a'r ysgolion academiaidd sydd wedi helpu Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo Wythnos Siarad.



Mae'r Undeb yn edrych drwy data Wythnos Siarad ac yna yn darparu dadansoddiad i'r Brifysgol i weithio ar bryderon a godwyd.

Os hoffech wirfoddoli i helpu gyda Wythnos Siarad, neu os hoffech edrych ar y data e-bostiwch **studentreps@Caerdydd.ac.uk**

Byddwn yn annog chi i gymryd rhan oherwydd mae'n gyfle gwych i ymgysylltu gyda'ch ffrindiau cwrs. Mae'n fath gwahanol o gasglu gwybodaeth sydd angen pobl sydd â chymhelliant ac angerddol i yrru'r ymgyrch.



ESBONIO PANELI STAFF MYFYRWYR

Mae Paneli Staff Myfyrwyr yn gyfarfodydd lle mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr a staff o fewn eich Ysgol yn mynychu. Pwrpas y cyfarfodydd yw siarad am faterion sy'n effeithio eich cwrs a phrofiad addysgol cyffredin. Bydd disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd gydag adborth gan eich cyd-fyfyrwyr.

Fe fydd agenda a chofnodion yn cal ei ddanfôn cyn y cyfarfod. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi paratoi ar gyfer yr eitemau agenda. Edrychwch allan am bwyntiau gweithredu yn eich cyfarfod nesaf. Efallai bydd angen i chi wneud rywbeth ar gyfer eich Ysgol erbyn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhaol vs Negyddol

Tra ei fod yn bwysig i chi feirniadu eich Ysgol a'r Brifysgol, mae hefyd yn bwysig i roi adborth am y pethau cadarnhaol hefyd. Mae angen i Ysgolion wybod beth mae'ch cyd-fyfyrwyr yn mwynhau am eu cwrs, fel eu bod yn gallu profiad y myfyrwyr.

Bydd eich panel yn cwrdd unwaith bob semester a fydd eich Ysgol yn darparu amserlen blyneddol o gyfarfodydd bydd angen i chi fynychu ar ddechrau y flwyddyn academaidd. Cadwch yr amser hyn yn rhydd o weithgareddau eraill. Os nad ydych yn gallu mynychu rhowch wybod i'r Cadeirydd o flaen llaw. Os oes gennych bwyntiau i'w codi, cysylltwch â'r Cadeirydd.

Peidiwch â gadael mater tan y Panel!

Mae rhai materion yn gallu aros tan gyfarfod ffurfiol megis Panel Staff-Myfyrwyr ond nid yw rhai yn gallu. Os oes mater pwysig, dylech ei godi gyda staff cyn y cyfarfod. Cofiwch: Rydych yn Gynrychiolydd Myfyrwyr a ddylech sicrhau eich bod yn cynrychioli y mwyafrif, ac nid rheini sy'n bersonol i chi. Ni ddylech drafod aelodau myfyrwyr, myfyrwyr unigol neu gwynion bersonol a cholledion. Os yw materion fel hyn yn codi, siaradwch â'ch Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr, fel arall gallwch gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr.

RÔL (ADEIRYDD A YSGRIFENNYDD Y PANEL STAFF MYFYRWYR

Bydd gan bob Panel Staff Myfyrwyr Gadeirydd ac Ysgrifennydd. Mae'r rhan fwyaf o'r rolau yn cael eu cymryd gan fyfyrwyr. Weithiau mae'r rol ysgrifennydd yn aelod o staff. Maent yn chwarae rôl bwysig yn sicrhau fod cyfarfodydd panel yn cael eu cynnal yn effeithiol a sicrhau fod gweithredoedd o'r cyfarfodydd yn cael eu apwyntio ac yn derbyn ffrâm amser. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw gwneud yn siwr fod gweithredoedd y cyfarfod yn cael eu hapwyntio.

Bydd gan bob panel nifer o rolau. Cyn y cyfarfod maent yn gosod yr agenda ar gyfer y cyfarfod ac maent yn penderfynu pwyl i wahodd i'r cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod bydd y Cadeirydd yn sicrhau fod y cyfarfod yn rhedeg ar amser, byddant yn aros yn annibynnol a gwneud yn siŵr fod gan bawb ar y panel hawliau siarad hafal. Eu rôl hefyd yw i roi grynodedd o'r pwyntiau a wnaed gan aelodau'r cyfarfod, yn ogystal â gosod pwyntiau gweithredu i aelodau neu'r grŵp i gyd. Yn dilyn y cyfarfod y Cadeirydd sydd â'r cyfrifoldeb i wirio'r cofnodion a ysgrifennwyd gan yr Ysgrifennydd a gosod dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Yr Ysgrifennydd sy'n cadw'r cofnodion, trefnu'r ystafell a sicrhau fod pawb wedi cael eu gwahodd. Cyn y cyfarfod bydd yr Ysgrifennydd wedi danfon cofnodion y cyfarfod blaenorol. Yn ystod y Panel fe fyddant yn cadw cofnodion ac yna yn eu teipio a'u danfon i aelodau'r cyfarfod.

Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn gweithio â'i gilydd i sicrhau fod pawb â dealltwriaeth clir o beth ddigwyddodd yn y pwyllgor blaenorol, a beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod nesaf.



BWRDD ASTUDIAETHAU

Bydd cofnodion y Panel Staff Myfyrwyr yn cael eu danfon i Undeb y Myfyrwyr drwy Ysgirfennydd y cyfarfod. Dylai'r munudau hefyd cael eu danfon i Fwrdd Astudiaethau. Mae Bwrdd Astudiaethau yn gyfarfodydd ffurfiol a gynhaliwyd gan eich Ysgol i 'sicrhau cydlynid o holl faterion academiaidd a gweinyddol sydd ynghlwm rhaglenni astudiaeth a addysgir.' Mae'r cyfarfodydd hyn yn llawer fwy ffurfiol ac mae Pennaeth yr Ysgolion a staff addas yn mynychu.

Mae cynrychiolaeth academiaidd myfyrwyr yn amrywio o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan, mae Cadeirydd y panel Staff Myfyrwyr yn mynychu fel cynrychiolydd myfyriwr. Mae'r materion sy'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd yn cynnwys: meini prawf mynediad, modd o asesu, cynnwys a curriculum.

ESBONIO FFORYMAU COLEG

Mae yna dri Fforwm Coleg gwahanol – Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd, a Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg, gyda chadeiryddion y Panel Staff Myfyrwyr yn mynychu.

Bydd bob Fforwm yn digwydd dair gwaith y flwyddyn ac yn cael ei gynnal gan Undeb y Myfyrwyr. Bydd Cadeiryddion y Paneli Staff Myfyrwyr (neu eu enwebai) gyda'r swyddog etholedig addas, Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Profiad Myfyriwr a Safonau Academiaidd, cynrychiolwyr llyfrgell a TG, Deon Coleg ar gyfer Addysg a Myfyrwyr, a aelodau staff Prifysgol.

Mae'r materion a drafodir yn y Fforwm Coleg fel arfer yn problemau sydd ddim yn gallu cael eu datrys ar lefel lleol ac angen sylw pellach. Mae'r cyfarfodydd hyn yn hanfodol i roi gwybod i strwythurau Coleg am adborth myfyrwyr.



HYFFORDDIANT

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig hyfforddiant cynhwysfawr i holl Gynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr. Boed os ydynt wedi bod yn eu rôl am nifer o flynyddoedd neu'n newydd i'r rôl. Eleni bydd hyfforddiant yn digwydd dwy waith:

17fed Hydref – 4ydd Tachwedd 2016

27ain Mawrth – 7fed Ebrill 2017

Mae'r dyddiadau wedi cael eu dewis i sicrhau fod tîm Llais Myfyrwyr yn gallu ffocysu ar yr hyfforddiant a rhoi eu egni llawn yn y maes ac yna gallu gario ymlaen gyda thasgau eraill drwy gydol y flwyddyn.

Bydd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn lleol i chi ac yn para fwy nag awr. Bydd sesiynau yn ymdrin ag egwyddorion o fod yn Gynrychiolydd Academiaidd Myfyriwr, cysylltiadau defnyddiol, sut i gasglu adborth, sut i ddelio gyda phryderon myfyrwyr a gwaith grŵp i ddatblygu datrys problemau.

Os hoffech wirio pryd mae'ch Ysgol yn cael hyfforddiant neu eisiau gwybod mwy am yr hyfforddi e-bostiwch **studentreps@Caerdydd.ac.uk**

(YMERW(H RAN, YMUNW(H Â PHWLL Y CYNRYCHOLWYR!

Mae'r strwythur Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr yn bodoli i sicrhau fod gan fyfyrwyr lais yn siapio eu profiad academiaidd. I sicrhau fod hyn yn digwydd, mae'r Brifysgol yn adlynu i'r cod Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'r cod hwn yn sicrhau fod y cyrsiau rydych yn eu hastudio yn cael eu cynnal i safon uchel.

Ar draws y Brifysgol mae yna nifer o gyfleoedd i chi i gymryd rhan i helpu siapio'r profiad academiaidd i chi a'ch cyfeillion. Eleni mae Undeb y Myfyrwyr yn cyflwyno Pwll Cynrychiolwyr – ar gyfer y Cynrychiolwyr sy'n barod i wirfoddoli ac sydd ar gael ar gyfer sawl cyfarfod ar draws y flwyddyn. I gofrestru ar gyfer Pwll Cynrychiolwyr e-bostiwch **studentreps@Caerdydd.ac.uk** gyda'r teitl: Pwll Cynrychiolydd

Yn ogystal ag ysgolion academiaidd yn eich darparu â chyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau ac ymgynghoriad ar draws yr Ysgol, mae yna nifer o brosesau y gallwch wirfoddoli ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- **Adolygiad a Mwyhad Blynyddol** – lle mae'r Brifysgol dadansoddi beth sydd angen ei newid neu wella ym mhob Ysgol Academaidd. Mae'r cyfarfodydd myfyrwyr yn cael eu cynnal ddechrau Tachwedd ar sail coleg-wrth-coleg.
- **Adolygiad Cyfnodol** – rhain yw'r prosesau lle mae Ysgolion yn gwneud adolygiad llydan o'u holl raglenni, gwerthuso eu cyfeiriad strategol ac adlewyrchu ar brofiadau eu myfyrwyr. Mae hyn i gyd yn cael eu cynnal gan fframwaith QAA, yn cylchdroi bob pum mlynedd ar draws bob Ysgol.
- **Paneli Cymeradwyo Rhaglen** – mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu creu i basio rhaglenni newydd o fewn ysgol. Mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn angenrheidiol ar gyfer y paneli cymeradwyo, ond mae'n rhaid i'r myfyrwyr fod o ysgol wahanol i'r un sy'n cael ei raglen wedi'i gymeradwyo.

Mae hefyd werth gofyn i'ch Ysgol am eu adroddiad Arholwyr Allanol, mae'r adroddiad hon yn darparu argymhellion i wella arholiadau wedi'u selio ar sgriptiau sydd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer adolygiad.

MAE BOD YN GYNRYCHIOLYDD YN GWELLA EICH (V!

Bydd bod yn Gynrychiolydd yn edrych yn dda iawn ar eich CV. Yn y rôl rydych yn dysgu amrywiaeth o sgiliau gwahanol gan gynnwys:

- Siarad Cyhoeddus
- Gwneud Penderfyniadau
- Gwaith Tîm
- Sgiliau Pwyllgor
- Datrys Problemau
- Arweinyddiaeth
- Sgiliau Gyfathrebu
- Sgiliau Cyflwyno

Gallwch weithio ar y sgiliau hyn i gyd drwy fynychu sesiynau sy'n cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Datblygu Sgiliau, wedi'i leoli ar 2il lawr Undeb y Myfyrwyr, Plas-Y-Parc. Gallwch ddewis o amrywiaeth o unedau megis sgiliau cyflwyno i negodi, o bendantrwydd i briffio tîm.

-  CardiffSDS
-  @SDSCardiff
-  SDS@Caerdydd.ac.uk
-  02920781489

SIARTER Y MYFYRWYR

Datblygwyd Siarter y Myfyrwyr fel partneriaeth ac mae'n diffinio rolau a chyfrifoldebau pob un ohonom: myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae'r Siarter yn rhoi gwybod i chi am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch chi. Fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyriwr, mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch a beth gall fyfyrwyr wneud os nad yw'r Brifysgol yn cyrraedd eich disgwyliadau.

Mae yna wyth gymuned i gyd gyda gwybodaeth defnyddiol a dolenni i wasanaethau cysylltiedig sydd angen i chi wybod amdanynt tra eich bod yng Nghaerdydd.

- Codi mater yn gynnar a gofyn am gymorth os nad ydynt wedi'u datrys.
- Rhoi gwybod i'r Brifysgol yn gynnar o unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau.

- Codi eich pryderon os yw eich profiad yng Nghaerdydd yn cael ei effeithio er gwaethaf gan gyd-fyfyrwyr neu staff;
- Gofyn am gyngor yn syth os yw eich cynnydd academiaidd, neu unrhyw agwedd o'ch profiad Caerdydd yn peri gofid i chi.

CYNGOR I FYFYRWYR

Mae'r ganolfan Cyngor i Fyfirwyr yn darparu cyngor a gwybodaeth, eiriolaeth, cynrychiolaeth a chefnogaeth drwy wasanaeth am ddim, cyfrinachol, di-duedd ac annibynnol i aelodau Undeb y Myfirwyr. Gallwch alw heibio, trefnu apwyntiad, e-bostio neu ffonio'r tîm. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau eraill a digwyddiadau i ddatblygu ymwybyddiaeth o hawl a chyfrifoldebau i hyrwyddo iechyd a lles myfirwyr.

Beth gall y tîm Cyngor helpu gyda?

- Materion Academaidd – mae hyn yn cynnwys apêl academaidd, cyngor ac ymddygiad myfirwyr, newid i'ch cwrs/telerau ac amodau, amgylchiadau esgusodol, adolygu drwy Ramadan, Cymorth Adolygu, Ymarfer Annheg
- Iechyd a Lles – iechyd rywiol
- Tai – gwirio contractau tai, anghydfod gyda landlord, rhestrau tai etc.

Angen Cyngor?

- Dewch i 3ydd llawr i siarad ag Ymgynghorydd Cyngor i Fyfirwyr.
- (Amser Tymor) Mae ein sesiynau galw heibio ar ddydd Llun i Ddydd Gwener 12:00 - 14:00
- Apwyntiadau ar gael rhwng 10:00 – 16:00
- Ffoniwch 📞 02920 781410
- Campws y Mynydd Bychan: Mae sesiynau cyngor a apwyntiadau yn y Mynydd Bychan ar gael bob ddydd Iau. I wneud apwyntiad fffoniwch ni ar 📞 02920 781410 neu llenwch Ffurflen Ymholiad ar-lein: cardiffstudents.com/advice



AMGYL(HIADAU ESGUSODOL

Os rydych yn profi amgylchiadau personol anodd ac yn credu fod rhain yn effeithio ar eich perfformiad academiaidd, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch Ysgol yn ysgrifenedig o'r 'amgylchiadau esgusodol' yma gyda thystiolaeth cyn gynted â phosib. Bydd eich llyfryn rhaglen yn eich darparu gydag arweiniad a therfynau amser. Peidiwch ag aros nes eich bod yn cael canlyniadau'r asesiadau i ddweud am eich amgylchiadau esgusodol.

Apeliadau

Mae gan y Brifysgol seiliau sbesiffig ar gyfer apêl ac mae'n bwysig iawn eich bod yn apelio o fewn y seiliau yma er mwyn i'ch apêl cael ei ystyried. Ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig ymchwil (PhD/MPhil) mae'r broses apêl yn wahanol, cysylltwch â chyngor am arweiniad pellach:

1. Mae'r marc a/neu ganlyniad a gyhoeddwyd gan y Brifysgol yn cynnwys camgymeriadau rhifol neu ffeithiol eraill.
2. Diffygion neu anghysondebau yn ymddygiad yr Arholi a/neu Asesiad arall neu mewn gyfarwyddiadau neu gyngor yn cysylltu at hynny nad oedd y Bwrdd Arholi yn ymwybodol ohonynt.
3. Amgylchiadau Esgusodol nad oedd y Bwrdd Arholi yn ymwybodol ohonynt, a lle mae'r myfyrwr yn gallu dangos rheswm da na fyddai'r amgylchiadau hynny yn amlwg i'r Bwrdd Arholi pan aseswyd y myfyriwr.

Ni allwch apelio oherwydd eich bod yn anghytuno gyda'r arholwr neu eisiau ail-farcio. Ni fydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw apeliadau sy'n herio barn academiaidd.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno apêl o fewn 28 diwrnod o ddyrniad canlyniad modiwl/gwobr. Trefnwch apwyntiad gyda chynghorwr i fynd drwy'r drefn.



BETH I GADW GOLWG ARNO

Fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr, mae disgwyl i chi wybod lle mae'r llefydd allweddol o fewn y Brifysgol nad yw'r holl fyfyrwyr yn gwybod amdanynt. Os yw myfyriwr â mater, gallwch gyfeirio nhw i'r bobl neu le perthnasol. Fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyriwr nid oes disgwyl i chi gwnsela'r myfyrwyr sy'n drist neu sydd angen cefnogaeth a chynghor, dim ond eu arwain i'r bobl addas.

NI ddylech ddelio â:

- Anghydfod rhwng myfyrwyr a staff academaidd e.e harasio, camwahaniaethu ac erledigaeth.

- Gweithdrefnau ffurfiol e.e methu arholiadau, apeliadau academaidd a gwrandawiadau unigol.
- Ymholiadau cyllido ac ariannol.
- Problemau lles, materion iechyd a phersonol e.e tai, cyflogadwyedd a mewnfudo.

Os daw myfyriwr atoch chi â phroblem ac rydych yn ansicr lle dylent fynd, cysylltwch â'ch Is-lywydd Addysg neu Thîm Llais Myfyriwr am arweiniad. Dewch heibio 3ydd llawr yr Undeb neu e-bostiwrch ni:

studentreps@Caerdydd.ac.uk

(EFNOGAETH MYFYRIWR

Mae'r Staff yn y Canolfannau Cefnogaeth Myfyrwyr yma i gynnig cynghor a chefnogaeth cyfrinachol pan fydd eich angen arnoch. Eich pwynt cyswllt cyntaf i'r Canolfan Cefnogaeth Myfyriwr bydd drwy'r Cynghorwyr Pwynt Ymholiad yn unai ein Canolfannau Cathays neu Parc y Mynydd Bychan. Efallai y byddant yn gallu ateb eich ymholiad yn syth, neu eich danfon i'r lle iawn i gael y wybodaeth sydd angen arnoch chi, o gwrdd â chynghorydd neu cwnselydd mewn un o'n sesiynau galw heibio, neu drwy apwyntiad os oes angen.

I ddarganfod mwy, ewch i:
cardiff.ac.uk/studentssupport/

Cefnogaeth Myfyrwyr Rhyngwladol

Mae'n rhaid i unrhyw ymholiadau am VISA's neu faterion am fyfyrwyr yn dod

draw i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd gael eu danfon at Gefnogaeth Myfyrwyr Rhyngwladol. Maent wedi'u lleoli yng Nghanolfan y Graddedigion, ar drydydd llawr Undeb y Myfyrwyr. Eu hamseroedd agor yw 9-5 yn ystod yr wythnos.

Cefnogaeth Mathemateg

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Fathemateg ar gael i holl fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ac wedi cael ei ddylunio i gynorthwyo'r rheini sydd eisiau cefnogaeth ychwanegol gyda'u sgiliau Mathemateg. Maent yn cynnig cymorth un-wrth un neu grŵp bach, sesiynau galw heibio anffurfiol a hyblyg a mynediad i amrywiaeth o adnoddau dysgu.

STRWYTHUR (OLEG PRIFYSGOL (AERDYDD

(OLEG (ELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL:

- Busnes.
- Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth.
- Daearyddiaeth a Chynllunio.
- Hanes, Archeoleg ac Astudiaethau Crefyddol.
- Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol.
- Y Gyfraith.
- Teithoedd Modern.
- Cerddoriaeth.
- Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol.
- Gwyddorau Cymdeithasol.
- Cymraeg.

(OLEG Y GWYDDORAU BIOFYDDOL A GWYDDORAU BYWYD:

- Biowyddorau.
- Deintyddiaeth.
- Gwyddorau Gofal Iechyd.
- Meddygaeth.
- Optometreg a Gwyddorau'r Golwg.
- Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol.
- Seicoleg.
- Deoniaeth Cymru (Addysg Ôl-raddedig Meddygol a Deintyddol).

(OLEG Y GWYDDORAU FFISYGOL A PHEIRIANNEG:

- Pensaernïaeth.
- Cemeg.
- Cyfrifiadureg a Gwybodeg.
- Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr.
- Peirianeg.
- Mathemateg.
- Ffiseg a Seryddiaeth.

GEIRFA AC ACRONYMAU

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr

– myfyrwyr sy'n gwirfoddoli i gynrychioli barn, cwestiynau a sylwadau eu cydfyfyrwyr.

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

– sefydliad annibynnol o'r Brifysgol sy'n cynrychioli barn myfyrwyr Caerdydd. Mae'r Undeb yn cynnig gwasanaethau cynrychioli, gweithgareddau allgyrsiol, nosweithiau allan, tripiâu diwrnod a gwaith rhan amser. Rydych yn awtomatig yn aelod a gallwch ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael.

Swyddogion Etholedig Llawn Amser

– mae hwn yn grŵp o saith myfyrwr sydd wedi'u hethol bob blwyddyn i gynrychioli barn Myfyrwyr Caerdydd. Mae'r swyddi hyn yn swyddi sy'n cael eu talu ac wedi'u gwahanu i saith maes: Llywydd, Is Lywydd Addysg, Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig, Is Lywydd Parc y Mynydd Bychan, Is Lywydd Cymdeithasau, Is Lywydd Chwaraeon ac Is Lywydd Lles.

Panel Staff Myfyrwyr – cyfarfodydd gyda Cynrychiolwyr Staff Myfyrwyr a staff Ysgol i drafod materion sy'n effeithio myfyrwyr ar lefel lleol. Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn yn eich rôl.

Astudiaeth Bwrdd – cyfarfodydd ffurfiol gyda Penaethiaid Ysgolion gydag aelodau staff priodol i drafod materion gweinyddol ac academaidd am y rhaglenni sy'n cael eu dosbarthu o fewn yr Ysgol.

Fforymau Coleg – cyfarfodydd gyda Chadeiryddion Paneli Staff Myfyrwyr, cynrychiolwyr y Brifysgol a'r Undeb i siarad am bryderon am y colegau mewn natur cyfunol.

Adolygiad a Mwyhad Blynyddol –

proses sicrwydd answydd blynyddol sy'n sicrhau fod Ysgolion yn cael eu dal am y penderfyniadau maent yn gwneud.

Adolygiad Cyfnodol (PR) –

dadansoddiad llydan o ysgolion academaidd sy'n digwydd bob pum mlynedd i sicrhau fod yr ysgol yn cyrraedd disgwyliadau cod answydd QAA.

Tîm Llais Myfyrwyr – y tîm sy'n darparu cefnogaeth hyfforddi a chynghor yn sbesiffig am eich rôl. Gallwch gysylltu â'r tîm os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu gwynion am strwythur Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr.

Cynghor i Fyfyrwyr – gwasanaeth gynghor annibynnol yn Undeb y Myfyrwyr, ar gael i holl fyfyrwyr Caerdydd – mae'r tîm yn darparu arweinyddiaeth ar faterion academaidd, cwynion defnyddiwr, tai a mwy.

Cefnogaeth Myfyrwyr – gwasanaeth a redir gan y Brifysgol wedi'i leoli ar 50 Plas-y-Parc sy'n cynnig cronfeydd caledi, cynghor cyffredinol, cefnogaeth a gwasanaethau cwnsela.

LLYFR CYFEIRIADAU UNDEB Y MYFYRWYR

Is-lywydd Addysg: Am atebion am eich profiad academiaidd, neu'r angen am fwy o gynrychiolaeth ar eich Pandel Staff Myfyrwyr, awgrymiadau am wella profiad y myfyrwyr, e-bostiwch:

vpeducation@Caerdydd.ac.uk.

Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig: :

Am faterion am brofiad Ôl-raddedigion (a addysgir ag ymchwil) boed am faterion cymdeithasol neu academiaidd e-bostiwch:

vpgraduate@Caerdydd.ac.uk.

Is-lywydd Lles: Am faterion am broblemau Lles boed yn academiaidd neu bersonol, poeni am dai, darpariaeth yr NHS yn yr ardal e-bostiwch:

vpwelfare@Caerdydd.ac.uk.

Cyngor i Fyfyrwyr: Eich gwasanaeth cyfrinachol, annibynnol a gwybodaeth a fydd yn ateb eich cwestiynau am faterion academiaidd, tai, cyflogadwyedd neu ariannol. I archebu apwyntiad e-bostiwch:

advice@Caerdydd.ac.uk neu ffoniwch **029 2078 1410**. Mae apwyntiadau galw heibio yn amrywio drwy'r blwyddyn, ewch i **cardiffstudents.com/advice** am fwy o wybodaeth neu ewch i weld y tîm Cyngor i Fyfyrwyr ar drydydd llawr Undeb y Myfyrwyr.

Cymdeithasau: Am gwestiynau am eich cymdeithas academiaidd, neu os hoffech greu cymdeithas academiaidd cysylltwch â: **societies@Caerdydd.ac.uk.**



DARGANFYDDWCH MWY



[CARDIFFSTUDENTS.COM/REPS](https://cardiffstudents.com/REPS)



STUDENTREPS@CAERDYDD.AC.UK



[@UC_STUDENTVOICE](https://twitter.com/UC_STUDENTVOICE)